O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 976 (Cy. 230)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ewloe Green, Sir y Fflint i Ddolgellau, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed	*2 Medi 2021*
Yn dod i rym	*5 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ewloe Green, Sir y Fflint i Ddolgellau, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogathau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 5 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A55 yng Nghyfnewidfa Ewloe Green, Sir y Fflint hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Nolgellau, Gwynedd;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

9.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru